**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**
—
**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

25 Ionawr 2024

Annwyl Jayne,

Cyllideb Ddrafft 2024-25

Fel y gwyddoch, ar 18 Ionawr 2024 cynhaliwyd sesiwn dystiolaeth gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) fel rhan o'n gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25. Roedd cynrychiolwyr CLlLC yn glir bod toriadau i wasanaethau addysg yn anochel, a hynny ar adeg o bwysau cyllidebol dwys. Hoffem dynnu eich sylw at nifer o faterion penodol o bryder a godwyd yn ystod y sesiwn, gan y gallent fod yn berthnasol at ddibenion eich gwaith craffu chi:

- toriadau i gyllidebau ysgolion a'r canlyniadau posibl, gan gynnwys cymorth i'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol;
- diffyg eglurder ynghylch trefniadau pensiwn ar gyfer athrawon, ac a fydd Llywodraeth Cymru yn eu hariannu;
- cymhlethdod anghenion mewn ysgolion o ganlyniad i'r pandemig COVID, gan arwain at bwysau cost cyfleusterau ac adnoddau ychwanegol na ellir ond eu hariannu'n rhannol;
- yr angen i flaenoriaethu diogelu dros ymyrraeth gynnar ac atal; a
- nifer yr ysgolion sy'n rhagweld diffygion cyllidebol "anadferadwy".

Mae rhagor o wybodaeth am y trafodaethau ar gael yn nhrawsgrifiad y Pwyllgor.

Yn gywir,

John

John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.